Sut i greu Torlan Gwenyn

Mae adeiladu torlannau gwenyn yn ffordd wych o helpu peillwyr yn eich ardal leol! Mae torlan gwenyn yn cynnig lleiniau cynnes, cysgodol o ddaear galed ble gall gwenyn turio unig nythu.

Ble allwn ni greu un?

Mae gwenyn turio'n hoffi bod yn gynnes, felly dewiswch lecyn sy'n llygad yr haul ac sydd wedi ei gysgodi rhag y gwynt mynychaf. Gosodwch eich torlan gwenyn i wynebu'r de neu'r de-ddwyrain er mwyn cael cymaint o bratau.

haul â phosibl. Bydd adeiladu eich torlan gwenyn ar ffurf hanner cylch yn helpu i ddal cynhesrwydd a chreu amrywiaeth o amodau fydd o fudd i lawer o wahanol inferte.Mae'r gwenyn hefyd angen ffynhonnell gyfagos o neithdar a phaill, felly cofiwch sicrhau bod digonedd o flodau gwyllt gerllaw.

'Dyw maint ddim yn bwysig!

Gall torlannau gwenyn fod yn unrhyw faint, o ardal fechan yn eich gardd i un sy'n ymestyn ar draws cae cyfan. Mae'n dibynnu'n llwyr ar hynny o le sydd ar gael a faint o gymorth a gweithwyr sydd gennych i'w adeiladu.

Yn y canllaw hwn rydym yn cynnig rhywfaint o awgrymiadau ichi greu eich torlan eich hun, ond mae croeso ichi amrywio uchder, siâp a deunydd eich torlan!

Wyddoch chi ... Trwy greu torlan byddwch nid yn unig yn helpu peillwyr fel gwenyn, ond hefyd amrywiaeth eang o infertebratau eraill, adar ac ymlusgiaid.

Sut i greu torlan gwenyn

Cam 1 – Clirio llecyn

Dewiswch eich llecyn a chodi'r tyweirch, gan eu gosod mewn pentwr i un ochr. Bydd angen i'r llecyn gaiff ei balu fod yn fwy o faint na'r dorlan orffenedig, fel bod gennych ddaear galed o'i amgylch (hyd at un metr). Ceisiwch dyllu i tua 15cm o ddyfnder o dan y glaswellt fel eich bod yn codi'r rhan fwyaf o wreiddiau'r glaswellt hefyd.

Cam 2 – Dechrau adeiladu'r dorlan

Torrwch ffos yn y siâp yr ydych am greu eich torlan, tua 30cm o ddyfnder. Rydym yn argymell defnyddio siâp chwarter lleuad sy'n mwyafu'r arwynebedd a chreu gwahanol onglau a siapiau. Cadwch y pridd yma mewn ail bentwr – byddwch ei angen yng ngham 3a i helpu i ladd y glaswellt.

Cam 3a – Dechrau adeiladu craidd y dorlan

Pentyrrwch y tyweirch a godwyd yng Ngham 1 â'u pen i lawr ar linell graidd y dorlan gwenyn (y ffos) a dechreuwch greu chwarter lleuad neu hanner cylch trwy ymestyn rhai o'r tyweirch allan tua'r corneli sy'n wynebu'r de.

Byddwch angen

Rhawiau
Graean / cerrig ar gyfer capio
Tywod ar gyfer capio

Yr holl ffotograffau gan Jamie Robins

Cam 3b –

Rhoddwch y pridd o Gam 2 yn ôl dros y dorlan i gwblhau'r craidd. 'Does dim ots pa ddeunyddiau a ddefnyddiwch chi i adeiladu craidd eich torlan gwenyn – gallwch ddefnyddio pa bynnag ddeunyddiau y cewch hyd iddynt ar eich safle. Y deunyddiau a ddefnyddiwch i gapio eich torlan gwenyn fydd bwysicaf.

Cam 4 – Capio'r dorlan

Mae rhaid i'r deunydd capio fod yn ddigon dwfn i'r gwenyn dyllu eu nythod ynddo – o leiaf 30cm o ddyfnder – a dylai hefyd fod â lefel isel o faetholion ynddo. Mae tywod neu isbridd yn ddelfrydol. Fe fydden ni'n argymell defnyddio tywod adeiladu, gan nad yw'r gronynnau o'r un faint a bydd yn helpu'r dorlan i gadw at ei gilydd. Gallech ychwanegu'r deunydd capio ar wahanol ddyfnderoedd i greu amrywiaeth. Defnyddiwch dywod i orchuddio'r border o amgylch y dorlan gwenyn i gadw'r chwyn i lawr, ac i greu cynefin y chwanegol ar gyfer gwenyn sy'n nythu yn y ddaear. Cywasgwch y tywod trwy ddefnyddio cefn eich rhaw.

Mwy nag un dorlan?

Os ydych yn creu mwy nag un dorlan gwenyn ar eich safle, ystyriwch ddefnyddio gwahanol fathau o ddeunydd capio ar bob un.

Wedi cwblhau eich torlan



1 - Clogwyn bychan
Beth am dorri clogwyn bychan i mewn i'r dorlan i greu rhywfaint o ofod nythu syth

2 - Llystyfiant
Cadwch y llystyfiant yn denau ar y dorlan fel bod daear galed yn y golwg bob amser

3 - Daear galed
Mae cael daear galed o amgylch y dorlan yn cynnig lleoliadau nythu ychwanegol.

Gofalu am eich torlan gwenyn

Rheoli

I reoli eich torlan gwenyn, cliriwch un rhan ohoni'n ôl i'r ddaear galed bob blwyddyn. Gallwch chwynnu hanner y dorlan un flwyddyn a gadael yr hanner arall, ac yna'r flwyddyn ganlynol gallwch gyfnewid ochrau - ceisiwch beidio â chlirio'r dorlan gyfan a cheisiwch leihau unrhyw darfu ar y tir. Os oes gennych nifer o dorlannau, cliriwch adrannau ohonynt yn eu tro – yr adeg orau i wneud hyn yw tua mis Chwefror.

Gwybodaeth ychwanegol

Mewn ardal mwy o faint, byddai rhwydwaith gwasgaredig o dorlannau â blodau gwyllt rhyngddynt yn ffordd wych o greu ardal amlbwrpas sy'n addas ar gyfer peillwyr. Mae'n well peidio plannu ar y dorlan ei hun. Mae hyn yn golygu ei bod yn agored, yn dywodlyd ac yn glir am fwy o amser.

Nythod ychwanegol

Byddai gosod rhywfaint o gynefinoedd nythu ar gyfer gwenyn sy'n nythu mewn tyllau, fel y saerwenynen a'r wenynen ddeildorrol, yn ddefnyddiol hefyd. Mae bonion coed marw gyda thyllau wedi eu drilio ynddynt (yn ddelfrydol cyn ddyfned â phosibl, o leiaf 8cm o hyd a diamedr o 4-10mm), neu fwndeli o wiail bambŵ, cyrs cyffredin a choesau blodau parhaol ar gyfer y saerwenynen a'r wenynen ddeildorrol yn syniad da. Cofiwch eto osod y rhain yn llygad yr haul.

Darllenwch ein canllawiau eraill ar helpu peillwyr mewn amgylcheddau trefol, yma:

www.buglife.org.uk

Garfield Weston Foundation
heritage / treftadaeth — Lottery funded / Ariennir gan y Loteri
Biffa Award — Building communities. Transforming lives.
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government